

## Y weithdrefn Archebu lle mewn Dosbarthiadau Ffitrwydd y Tu Allan

- Gellir ond archebu lle gan ddefnyddio ein system archebu ar-lein. Y ddolen i wneud hyn yw <https://conwy.leisurecloud.net/Connect/mrmLogin.aspx>
- Os ydych angen cofrestru ar gyfer archebu ar-lein neu angen unrhyw gymorth yna anfonwch e-bost at [hamdden.leisure@conwy.gov.uk](mailto:hamdden.leisure@conwy.gov.uk)
- Mae archebu a thalu ymlaen llaw yn hanfodol.
- Bydd unrhyw un sydd yn dod i ddsbarth heb archebu lle yn gorfod gadael.
- Bydd pob dosbarth yn system talu pob tro. Mesur dros dro yw hyn a rydym wedi gwneud y penderfyniad oherwydd bod y gwasanaeth yr ydym yn ei gynnisg i'n haelodau ar hyn o bryd wedi lleihau'n arw.
- Y gost ar gyfer pob dosbarth fydd:
  - £5 Pris Safonol
  - £3 Pobl Hŷn
  - £0 Deiliaid Tanysgrifiad Teyrngarwch Anabled
- Gellir archebu ar gyfer pob dosbarth o hanner nos y diwrnod cyn y cynhelir y dosbarth. Er enghraifft, os ydych eisiau archebu ar gyfer dosbarth ar ddydd Mawrth, yna gallwch wneud hyn o hanner nos ar y nos Sul.
- Gallwch archebu lle hyd at 15 munud cyn i'r dosbarth ddechrau.
- Bydd yr Amserlen Ffitrwydd yn nodi lle cynhelir pob dosbarth ac mae'n bwysig eich bod yn dilyn unrhyw arwyddion sydd mewn lle i'ch cadw'n saff.
- Ar ôl cyrraedd eich dosbarth byddwn yn gofyn i chi fynd at yr offer sydd ar gael y pellaf o'r fynedfa, ac ar ddiwedd y dosbarth byddwch yn gadael y ffordd wahanol.
- Efallai bydd tywydd garw yn effeithio ar rai dosbarthiadau, ac os mai dyma fydd yr achos yna byddwn yn cysylltu â phob unigolyn sydd wedi archebu lle yn y dosbarth a'u rhoi mewn dosbarth gwahanol.
- Ni fyddwn yn rhoi ad-daliadau. Os bydd rhaid i ni ganslo dosbarth yna byddwn yn symud eich archeb i ddsbarth arall.
- Bydd yr holl offer yn cael ei ddiheintio cyn i chi gyrraedd. Hefyd fe fydd yna hylif diheintio dwylo a chynnyrch glanhau ar gael i gyfranogwyr eu defnyddio. Bydd ein tîm yn diheintio'r holl offer ar ôl y dosbarth.
- Fe fydd gan hyfforddwr y dosbarth gofrestr o bawb sydd wedi archebu lle yn y dosbarth. Ni fydd angen i chi ddefnyddio eich cerdyn yn y dderbynfa.
- Ni fydd unrhyw gyfleusterau newid ar agor. Fe fydd toiledau ar gael.
- Cyrhaeddwch yn barod i ymarfer os gwelwch yn dda a gadewch eiddo personol adref neu yn eich car pryd bynnag fo hynny'n bosibl.